

Youth Endowment Fund



Nodiadau arweiniad galwad agored Rownd 1 y Gronfa Waddol Ieuenctid

Beth yw'r Gronfa Waddol Ieuenctid?

Mae'r Gronfa Waddol Ieuenctid yn ymgais mentrus i roi ymyrraeth gynnar wrth wraidd ymdrechion i leihau troseddu ymysg ieuenctid. Bydd yn cefnogi rhaglenni a phartneriaethau cymunedol sy'n gweithio gyda phlant sydd mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i droseddu a thrais, gan feithrin ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio. Bydd yn canolbwyntio ar weithio gyda'r rheini rhwng 10 a 14 mlwydd oed ledled Cymru a Lloegr.

Bydd y cyllid a gynigir gan y Gronfa Waddol Ieuenctid yn profi effeithiolrwydd ymyriadau, gan anelu at ehangu'r rheini sy'n gweithio er mwyn cyrraedd mwy o bobl ifanc.

Lansio ein rownd grant gyntaf

Galwad agored yw ein rownd gyllido gyntaf. Rydym yn chwilio am ymyriadau sy'n targedu **pobl ifanc 10-14 mlwydd oed** ac sy'n ceisio atal troseddu yn y dyfodol.

Mae angen i ymyriadau fod â **theori newid** gadarn a chlir sy'n egluro'r ffordd maent yn **lleihau troseddu** ac wedi'u seilio ar y **dystiolaeth** sydd ar gael.

Mae angen i ymgeiswyr feddu ar brofiad o weithio gyda phobl ifanc, ac os ymgeisir am y cyllid ar gyfer ymyrraeth sydd eisoes yn bodoli, rhaid ei ddefnyddio i ehangu'r gwaith hwn.

Rydym yn awyddus i gynyddu'r sylfaen dystiolaeth o'r hyn sy'n llwyddo i atal troseddu yn y dyfodol felly bydd pob ymyrraeth a ariennir gennym yn cael ei gwerthuso'n annibynnol.

Youth Endowment Fund



Rhaid i ymgeiswyr allu defnyddio'r £100,000 cyntaf o gyllid o fewn chwe mis cyntaf y grant (mis Hydref 2019 – mis Mawrth 2020).

Pa fath o gynigion yr ydym yn chwilio amdanynt?

Bydd cynigion llwyddiannus:

- **Yn targedu pobl ifanc 10-14 mlwydd oed yn bennaf**, y credir sydd mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i droseddu a thrais. Gallai hyn gynnwys y rheini sy'n profi materion a gysylltir yn gryf â throseddu yn y dyfodol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis wedi'u gwahardd o'r ysgol, anhwylder ymddygiad, aelodau o'u teulu yn ymwneud â throseddu difrifol, yn ogystal â dangosyddion risg uchel eraill. Gallai ymyriadau gynnwys gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc mewn perygl, neu'n anuniongyrchol (er enghraifft, drwy weithio gyda rhieni neu athrawon). Croesawn hefyd gynigion ar gyfer ymyriadau **ar gyfer pobl ifanc ar ymyl y System Cyfiawnder Troseddol**, neu sydd eisoes yn y System Cyfiawnder Troseddol (er enghraifft, rhaglenni neu wasanaethau sy'n ceisio atal aildroseddu).
- **Yn ceisio atal pobl ifanc rhag ymwneud â throseddu a thrais**, drwy dargedu ffactorau fel iechyd meddwl, eu perthynas â chyfoedion, cymhwysedd cymdeithasol ac emosiynol, a'r ffordd y mae'r teulu yn gweithredu. Nid ydym yn rhagnodi themâu na'r mathau o weithgareddau i'w cynnal yn y rownd hon, ac rydym yn agored i unrhyw ymyriadau sy'n ateb y gofynion a restrir yma. Gallai'r rhain gynnwys ymyriadau sy'n -
 - ceisio mynd i'r afael â pheryglon a ffactorau amddiffynnol a gysylltir yn gryf â throseddu (er enghraifft, rhaglenni mentora neu fentrau dysgu cymdeithasol ac emosiynol mewn ysgolion wedi'u targedu)
 - targedu plant a phobl ifanc mewn perygl
 - targedu'r rheini sydd yn y system cyfiawnder troseddol neu ar ymyl y system

Youth Endowment Fund



- **Wedi'u diffinio'n dda, gyda theori newid glir a chadarn**, wedi'i seilio ar y dystiolaeth sydd ar gael. Dylai hyn ei gwneud yn glir beth yw canlyniad bwriadedig yr ymyrraeth, a'r ffordd y bydd y gweithgareddau a gynhelir yn arwain at y canlyniadau hyn. Dylai hefyd ei gwneud yn glir pam mae angen yr ymyrraeth, a pham y bydd yn ychwanegu gwerth at yr hyn sydd eisoes ar gael i'r bobl ifanc dan sylw.
- **Â'r parodrwydd a'r gallu i gael eu gwerthuso'n annibynnol**. Byddwn yn penodi gwerthuswr annibynnol ac yn gweithio gydag ymgeiswyr llwyddiannus i ddylunio cynllun gwerthuso. Nid oes angen i ymgeiswyr gynnwys dim byd ynglŷn â dylunio gwerthusiad na chostau gwerthuso yn eu cais; byddwn yn trafod y gofynion gwerthuso â'r rheini sydd ar y rhestr fer am gyllid.
- **Â'r parodrwydd i rannu gwersi er lles eraill yn y sector**. Mae'r Gronfa Waddol Ieuencid yn ffordd fentrus o fynd i'r afael â throseddu ymysg ieuencid. Rydym yn awyddus i ariannu mudiadau a fydd yn rhannu gwersi â'r sector yn agored, fel y gallwn gael yr effaith fwyaf posib ar blant a phobl ifanc.
- **Yn bwriadu darparu eu hymyrraeth am o leiaf 12 mis**. Byddwn yn ystyried darparu cyllid i gynnal ymyrraeth am hyd at 24 mis yn y rownd gyntaf hon.
- **Â'r gallu i ddechrau darparu eu hymyrraeth i gyfranogwyr ychwanegol yn gyflym**. Rydym yn awyddus i ddechrau arni cyn gynted â phosib, felly mae angen i ymgeiswyr yn y rownd gyllido hon allu gwario o leiaf £100,000 yn ystod chwe mis cyntaf y grant (h.y. rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020). Nid oes terfyn uchaf ar yr hyn y gellir ei wario yn ystod y cyfnod hwn; serch hynny, ni allwn dreiglo cyllid ymlaen, felly mae'n bwysig i ymgeiswyr fod yn realistig ynglŷn â'u gallu i wario o leiaf £100,000 yn y chwe mis cyntaf.

Pwysigrwydd tystiolaeth

Un o brif amcanion y Gronfa Waddol Ieuencid yw meithrin ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n llwyddo i leihau troseddu ymysg plant a phobl ifanc. Byddwn yn gwerthuso pob ymyrraeth a ariennir gennym ac yn rhannu'r hyn a ddysgir ohonynt.

Youth Endowment Fund



Mae'n cymryd amser i ddatblygu tystiolaeth o effaith. I gael eu cyllido yn y rownd grant hon, rhaid i ymgeiswyr o leiaf fod â theori newid gredadwy sy'n amlinellu'r ffordd y bydd eu rhaglen neu eu gwasanaeth yn cyflawni'r canlyniadau bwriadedig, ac sydd wedi'i seilio ar y dystiolaeth sydd ar gael.

Hoffem hefyd glywed gan ymgeiswyr ag ymyriadau sydd wedi dangos tystiolaeth o'u heffaith ac sydd o bosib yn barod am fathau mwy cadarn o werthuso, megis hap-dreial wedi'i reoli.

Beth fyddwn yn ei ariannu

Gall ymyrraeth fod yn un yr ydych eisoës yn ei darparu ac eisiau ei hehangu, gall fod yn newydd, neu eisoës fod wedi'i darparu rywle arall. Yr hyn sy'n bwysig yw bod yr ymyrraeth yn targedu pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu, a bod yna theori newid gadarn.

Mae cyllid ar gael ar gyfer costau darparu ymyrraeth ar y rheng flaen (gan gynnwys costau staff). Ni allwn dalu am gost darpariaeth sydd eisoës yn bodoli (h.y. costau craidd) na chymryd lle cyllid o ffynonellau eraill. Rhaid defnyddio'r cyllid i ehangu rhaglen neu wasanaeth sydd eisoës yn bodoli er mwyn cyrraedd cyfranogwyr ychwanegol, neu ddefnyddio'r cyllid i ddarparu rhaglen neu wasanaeth newydd.

Sylwch na fyddwn yn ariannu gwaith sydd er diben crefyddol neu wleidyddol. Gall mudiadau ffydd ymgeisio, ond rhaid i'ch ymyrraeth fod yn agored i bobl o bob ffydd a phobl heb ffydd. Ni ellir ychwaith ddefnyddio'r cyllid i helpu i hyrwyddo unrhyw grefydd.

Pwy all ymgeisio?

Gall unrhyw fudiad sydd wedi'i gyfansoddi'n gyfreithiol wneud cais, gan gynnwys

Youth Endowment Fund



- Elusennau a mentrau cymdeithasol
- Cwmnïau er elw
- Asiantaethau'r sector cyhoeddus, megis cynghorau, ysgolion, iechyd neu heddluoedd

Mae angen i bob mudiad sy'n ymgeisio fod ar waith yng Nghymru a/neu Loegr a meddu ar brofiad blaenorol o ddarparu ar gyfer pobl ifanc yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (er enghraifft, hyfforddi gweithwyr ieuenctid). Os nad ydych yn darparu'n uniongyrchol ar gyfer pobl ifanc, bydd angen i chi egluro gyda phwy yr ydych yn bwriadu gweithio i wneud hyn. Os nad ydych wedi gweithio i wella canlyniadau i bobl ifanc ni ddylech ymgeisio am grant.

Gall mudiadau ymgeisio mewn partneriaeth ag eraill, ond bydd angen i un mudiad fod yr ymgeisydd arweiniol. Os ydych am ymgeisio fel partneriaeth, yn eich cais bydd angen i chi ddangos ym mha ffordd y bydd hyn o fudd i chi gyflawni'r canlyniadau yr ydym yn chwilio amdanynt. Ni fydd ymgeisio mewn partneriaeth yn golygu'ch bod yn fwy tebygol nac yn llai tebygol o gael grant; y peth pwysicaf yw'ch bod yn gallu darparu tystiolaeth i ddangos pam y byddai'ch partneriaeth yn effeithiol i gyrraedd plant a phobl ifanc mewn perygl.

Sut i ymgeisio

I ymgeisio, cofrestrwch drwy borth grantiau'r Gronfa Waddol Ieuenctid a llenwi'r ffurflen arlein. Ceir isod arweiniad ar sut i wneud hyn, a phob cwestiwn a ofynnwn.

Byddwn yn cynnal gweithdai i gynorthwyo ymgeiswyr yn Llundain, Manceinion a Chaerdydd, a gweminar hefyd i'r rheini na all ddod i'r gweithdai.

Byddwn hefyd yn diweddarau'r dudalen Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan drwy gydol y ffenestr ymgeisio i roi arweiniad ac adborth pellach. Byddem yn argymhell i chi gadw llygad ar y dudalen hon wrth gwblhau'ch cais.

Youth Endowment Fund



Y dyddiad cau i geisiadau yw **canol dydd, dydd Mawrth 23^{ain} Gorffennaf 2019**.

Bydd pob cais yn mynd drwy broses hidlo gychwynol i sefydlu pa gynigion y byddwn yn eu hadolygu'n llawn. Byddwn wedyn yn gweithio gyda'r ymgeiswyr ar y rhestr fer i ddatblygu cynllun gwerthuso cychwynol a chwblhau eu cynigion cyn eu cyflwyno i Bwyllgor Grantiau'r Gronfa Waddol Ieuencid tua diwedd mis Medi. Mae'n bosib y bydd angen i ni siarad a/neu ymweld ag ymgeiswyr yn ystod y broses hon, felly bydd angen i chi sicrhau'ch bod ar gael ar gyfer hyn.

Amserlen

Ceisiadau am grant ar agor	Dydd Mawrth 28^{ain} Mai
Gweithdy Caerdydd	3 ^{ydd} Mehefin
Gweithdy Llundain	5 ^{ed} Mehefin
Gweithdy Manceinion	10 ^{fed} Mehefin
Gweminar arlein	Dydd Mercher 12 ^{fed} Mehefin
Ceisiadau am grant yn cau	Dydd Mawrth 23 ^{ain} Gorffennaf
Cyfnod asesu grant	24 ^{ain} Gorffennaf – 6 ^{ed} Medi
Pwyllgor Grantiau'r Gronfa Waddol Ieuencid	25 ^{ain} Medi
Rhoi gwybod penderfyniad y Pwyllgor Grantiau	Wythnos sy'n dechrau 30 ^{ain} Medi
Prosiectau'n dechrau	Wythnos sy'n dechrau 7 ^{fed} Hydref

Youth Endowment Fund



Arweiniad ar Ymgeisio yn Rownd galwad agored y Gronfa Waddol Ieuenctid

I ymgeisio yn Gymraeg, bydd angen i chi lawrlwytho copi o'r ffurflen gais Gymraeg oddi ar ein gwefan. Bydd angen i chi yn gyntaf ddarparu gwybodaeth sylfaenol am eich mudiad, gan gynnwys

- Pwy ydych chi
- Ble rydych wedi'ch lleoli
- Beth yw amcanion eich mudiad
- Manylion y person sy'n cwblhau'r cais

Wedyn, bydd angen i chi ateb cwestiynau'r cais.

Os oes gennych gwestiwn wrth gwblhau'r cais, cysylltwch â thîm grantiau'r Gronfa Waddol Ieuenctid drwy ebostio youthendowmentfund@sibgroup.org.uk neu ffonio 020 3096 7900.

Adran 1: Eich Mudiad

Mae'r adran hon yn gyfle i chi roi gwybod i ni am eich mudiad yn gyffredinol, eich amcanion, a'ch gwaith presennol.

1. Diben y mudiad

Beth yw diben eich mudiad?

Nod y cwestiwn hwn yw cael gwybod beth yw cenhadaeth a diben cyffredinol eich mudiad. Rydym yn deall y gall fod gan rai mudiadau sy'n ymgeisio amcanion eang iawn, felly bwriedir i'r cwestiwn hwn roi gwybod i ni am eich gwaith yn gyffredinol.

Defnyddiwch hyd at 300 gair.

Youth Endowment Fund



2. Cydweithio ag eraill

A ydych yn cydweithio ag unrhyw fudiadau eraill i ymgeisio am y grant hwn?

Atebwch 'ydym' neu 'nac ydym'.

3. Enwau cyfreithiol y mudiadau eraill

Os 'ydym' oedd eich ateb i gwestiwn 2, nodwch enwau cyfreithiol y mudiadau eraill yr ydych yn cydweithio â nhw.

Mae'n bosib y bydd angen i ni gynnal gwiriadau ar y mudiadau hyn fel rhan o broses diwydrwydd dyladwy'r cais, felly mae'n bwysig eich bod yn nodi eu henwau cyfreithiol fel y maent wedi'u rhestru yn Nhŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau. Dim ond enwau'r mudiadau y dylech eu nodi.

Os nad ydych yn ymgeisio mewn partneriaeth, gadewch y cwestiwn hwn yn wag a mynd ymlaen i gwestiwn 5.

4. Diben y mudiadau eraill

Os 'ydym' oedd eich ateb i gwestiwn 2, rhowch wybod i ni am ddiben y mudiadau eraill a enwyd gennych. Hynny yw, beth yw cenhadaeth a diben cyffredinol y mudiadau hyn, a pha waith maent yn ei wneud?

Defnyddiwch hyd at 300 gair.

5. Gwasanaethau i gefnogi pobl ifanc

Bwriadwn ariannu mudiadau sy'n meddu ar brofiad a llwyddiant blaenorol wrth wella canlyniadau i bobl ifanc.

Youth Endowment Fund



Pa waith y mae'ch mudiad yn ei wneud (ac wedi'i wneud yn y gorffennol) i gefnogi pobl ifanc, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (e.e. hyfforddi athrawon i ddarparu rhaglen benodol)? Nodwch ystod oedran y bobl ifanc dan sylw.

Defnyddiwch hyd at 300 gair.

6. Timau gweithredu a llywodraethu

Disgrifiwch brif dimau gweithredu a llywodraethu'r mudiad, a'r ffordd maent yn rhyngweithio.

Os ydych yn ymgeisio mewn partneriaeth, disgrifiwch y ffordd y mae hyn yn gweithio rhwng y mudiadau yn y bartneriaeth. Mae angen i ni ddeall y sgiliau sydd gan eich tîm, y ffordd y gwneir penderfyniadau, a pha gyfraniad a goruchwyliaeth y mae'r tîm llywodraethu'n eu darparu.

Defnyddiwch hyd at 300 gair.

7. Prosesau gweithredu a llywodraethu

Disgrifiwch eich prosesau a'r ffordd y gwneir penderfyniadau yn eich mudiad; a oes gennych strategaeth a chynllun busnes ac ym mha ffordd yr ydych yn eu hadolygu? A ydych yn llunio cyfrifon rheoli a/neu gyfrifon effaith? Os ydych yn ymgeisio mewn partneriaeth, disgrifiwch y ffordd y mae hyn yn gweithio rhwng y mudiadau yn y bartneriaeth.

Mae angen i ni sicrhau bod gan y mudiadau a ariennir gennym yr holl gymwysterau, trwyddedau, caniatâd, sgiliau a phrofiad angenrheidiol i gyflawni

Youth Endowment Fund



eu gwaith a gwireddu'r amcanion y bwriadwn eu hariannu. Rhowch wybod i ni yma y ffordd yr ydych yn meddu ar bob un o'r rhain.

Defnyddiwch hyd at 300 gair.

8. Dull diogelu

Rhowch wybod i ni am eich dull diogelu, a'ch cydymffurfiaeth â deddfau perthnasol.

Byddwn yn ariannu mudiadau i helpu pobl ifanc agored i niwed. O ganlyniad, rhaid i bob ymgeisydd llwyddiannus feddu ar bolisiau a gweithdrefnau priodol ynglŷn â diogelu a rhaid iddynt gydymffurfio â phob deddf berthnasol iddynt. Sylwch y gallwn ofyn am gopiâu o ddogfennau perthnasol i gefnogi hyn yn ystod y broses asesu.

Defnyddiwch hyd at 200 gair

Adran 2: Dylunio'r Prosiect a'i Roi ar Waith

Mae'r adran hon yn gyfle i chi ddisgrifio'r hyn yr hoffech i ni ei ariannu.

9. Teitl y prosiect

Rhowch deitl byr i'ch prosiect. Croesawir teitlau syml, disgrifiadol (e.e. "Prosiect Mentora Disgyblion Blwyddyn 7"). Os ydych yn ymgeisio gyda phrosiect sydd ag enw yn barod, nodwch yr enw llawn yn y teitl (ac unrhyw dalfyriad sydd ganddo), er enghraifft Advanced Lifeskills Training (LST).

Defnyddiwch hyd at 30 gair.

Youth Endowment Fund



10. Oedrannau targed y prosiect

Rhowch wybod i ni oedrannau'r bobl ifanc y bydd eich prosiect yn eu targedu drwy nodi oedrannau ieuengaf a hynaf y rheini a fydd yn cymryd rhan.

11. Daearyddiaeth y boblogaeth darged

Rhowch wybod i ni ble yng Nghymru a Lloegr y bydd eich prosiect yn cael ei gynnal drwy nodi'r ardal(oedd) Awdurdod Lleol y bydd y prosiect ar waith ynddi/ynddynt. Mae rhestr o ardaloedd Awdurdod Lleol ar gael [yma](#).

12. A fydd y prosiect ar waith yng Nghymru?

A fydd unrhyw ran o'ch prosiect ar waith yng Nghymru?

Atebwch 'bydd' neu 'na fydd'.

13. Cydweddiad y prosiect â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Os 'bydd' oedd eich ateb i gwestiwn 12, rhowch wybod i ni ym mha ffordd y mae'ch prosiect yn cyd-fynd ag amcanion y Bwrdd/Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn yr ardal(oedd) y bydd y prosiect ar waith ynddi/ynddynt. Sylwch y byddwn o bosib yn siarad â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y broses asesu grant.

Os nad ydych ar waith yng Nghymru, gadewch y cwestiwn hwn yn wag a mynd ymlaen i gwestiwn 14.

Defnyddiwch hyd at 200 gair.

Youth Endowment Fund



14. Nodweddion cyfranogwyr

Beth yw nodweddion cyffredinol y plant a'r bobl ifanc y byddwch yn gweithio gyda nhw?

- Mae ganddynt euogfarn droseddol
- Yn derbyn gwasanaethau Tîm Troseddau Ieuencid neu wasanaeth tebyg
- Yn Blentyn mewn Angen cofrestredig
- Yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal
- Mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol
- Wedi cael eu gwahardd o'r ysgol
- Yn colli'r ysgol yn aml
- Aelod o'u teulu ag euogfarnau troseddol
- Mewn perygl o ymaelodi â gang
- Mewn gang
- Lefelau isel o gyflawniad addysgol
- Materion iechyd meddwl wedi'u diagnosio
- Wedi dioddef camdriniaeth / trawma yn eu plentyndod cynnar
- Wedi dioddef trosedd
- Yn arddangos ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Yn arddangos llawer o fyrbwylltra/gorfywiogrwydd
- Â hanes o gario arf (e.e. cyllell, dryll)
- Â hanes o ddefnyddio alcohol a/neu sylwedd
- Arall (manylwch)

Cewch ddewis hyd at 5 o'r opsiynau a ddarperir

Youth Endowment Fund



15. Prif leoliad y prosiect

Rhowch wybod i ni ba un o'r canlynol yw prif leoliad y gweithgareddau a ddarperir

- Cartref
- Canolfan blant
- Ysgol gynradd
- Ysgol uwchradd
- Coleg chweched dosbarth neu Addysg Bellach
- Darpariaeth Amgen neu Uned Cyfeirio Disgyblion
- Yn y gymuned
- Lleoliad iechyd cleifion mewnol
- Lleoliad iechyd cleifion allanol
- Gorsaf heddlu
- Clwb ieuenctid
- Clwb chwaraeon
- Arall (manylwch)

Dim ond un y gallwch ei ddewis felly dewiswch yr un lle y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn digwydd.

16. Rhoi'r prosiect ar waith

Ym mha ffordd y bydd y prosiect yr ydych yn gofyn i ni ei ariannu yn cael ei roi ar waith? Dewiswch un o'r canlynol;

- Unigolion – h.y. ei ddarparu i blant/pobl ifanc/teuluoedd unigol
- Grwpiau – h.y. ei ddarparu i grwpiau o blant/pobl ifanc/teuluoedd

Youth Endowment Fund



- Arall – rhowch fanylion yn y blwch a ddarperir. Gallai hyn gynnwys ymyriadau sydd ag elfennau lluosog a roddir ar waith mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft, ymyrraeth a ddarperir i grwpiau ac sydd ag elfen unigol ychwanegol.

17. Pwy fydd yn rhoi'r prosiect ar waith?

Rhowch wybod i ni pwy fydd yn rhoi'r prosiect ar waith.

Dylai'ch ateb ddisgrifio'n gryno pwy fydd yn gweithio gyda'r bobl ifanc y mae'ch prosiect yn eu cefnogi. Gallai hyn fod yn athro, gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr ieuenctid neu berson arall.

Defnyddiwch hyd at 100 gair

18. Thema'r prosiect

Pa thema sy'n disgrifio'ch prosiect orau? Dewiswch un o'r canlynol;

- Ymyriadau **hybu sgiliau** megis arddangosiadau, ymarfer a gweithgareddau sy'n ceisio datblygu galluoedd pobl ifanc i reoli eu hymddygiad a/neu gymryd rhan mewn gweithgareddau er budd cymdeithas.
- Ymyriadau **teuluol** gan gynnwys ymweld â'r cartref, hyfforddi rhieni a therapi teulu, ac ymyriadau sy'n cydnabod bod creu newidiadau mewn pobl ifanc yn anodd pan fo ganddynt fywydau cartref cymhleth, ac sydd felly'n ystyried ffactorau perygl a ffactorau amddiffynol ar lefel y teulu.
- Ymyriadau **mentora** sydd fel arfer yn cynnwys person hŷn neu fwy profiadol sy'n cynnig cymorth ac arweiniad i berson ifanc dros amser.

Youth Endowment Fund



- Ymyriadau **yn y gymuned** gan gynnwys gweithgareddau hamdden ar ôl ysgol a rhaglenni chwaraeon.
- Ymyriadau **penodol i gangiau** sy'n ceisio atal pobl ifanc rhag ymwneud â gangiau, a'u helpu i ddod o hyd i ffordd allan os ydynt eisoes yn ymwneud â nhw.
- **Arall** – Manylwch

19. Disgrifio'r prosiect

Amlinellwch eich prosiect arfaethedig o safbwynt person ifanc sy'n cymryd rhan ynddo. Beth am ddechrau gyda dwy frawddeg sy'n rhoi disgrifiad syml a chlir o'r prosiect?

Manylwch ar ddyluniad y rhaglen – pa weithgareddau penodol a ddarperir? Ar gyfer pob gweithgaredd, disgrifiwch beth yw ef (e.e. sesiwn sgiliau grŵp), ble mae'n cael ei ddarparu (e.e. ystafell ddosbarth), gan bwy (e.e. athro, arbenigwr hyfforddedig), hyd y sesiwn (e.e. 1 awr) a pha mor aml (e.e. dwywaith yr wythnos yn ystod tymor ysgol am 10 wythnos). Os oes mwy nag un prif weithgaredd yn y prosiect, disgrifiwch bob un ar wahân.

Defnyddiwch hyd at 300 gair.

20. Nifer y bobl ifanc

Rhowch wybod i ni faint o bobl ifanc y bydd y cyllid hwn yn eich galluogi i weithio gyda nhw (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol). Os yw'r prosiect eisoes yn bodoli, nodwch nifer y bobl ifanc ychwanegol y byddai'r cyllid hwn yn eich helpu i'w cefnogi. Dim ond rhif y gallwch ei roi yn y blwch a ddarperir.

Youth Endowment Fund



21. Cynnwys y gymuned yn y prosiect

Rhowch wybod i ni ym mha ffordd y mae'ch cymuned, a'r bobl ifanc ynddi, wedi'u cynnwys wrth ddylunio neu wella'ch prosiect. A yw'ch prosiect wedi'i seilio ar unrhyw adborth penodol yr ydych wedi'i gael neu waith maes yr ydych wedi'i wneud?

Defnyddiwch hyd at 200 gair

22. Tîm y prosiect

Disgrifiwch yn gryno brofiad ac arbenigedd tîm y prosiect a fydd yn rheoli ac yn goruchwyllo'r prosiect.

Mae tîm y prosiect yn hanfodol i sicrhau bod arian y Gronfa Waddol Ieuenctid yn cael ei wario'n dda a bod y prosiect yn cael yr effaith fwyaf posib. Hoffem gael gwybod am y tîm hwn a'u profiad blaenorol yn y maes (e.e. canfod pobl ifanc mewn perygl o droseddu a gweithio gyda nhw, rheoli partneriaethau neu brosiectau amlasiantaeth, darparu, hyfforddi a rheoli ymarferwyr a all weithio gyda phobl ifanc mewn perygl).

Defnyddiwch hyd at 300 gair

Adran 3: Tystiolaeth ar gyfer y Prosiect a Gwerthuso'r Prosiect

Mae'r adran hon yn gyfle i chi ddisgrifio'r dystiolaeth sy'n sail i'ch prosiect.

23. Y prif gwestiwn ymchwil

Nodwch y prif gwestiwn ymchwil yr ydych yn disgwyl i'r gwerthusiad o'ch prosiect ei ateb.

Youth Endowment Fund



Bydd pob prosiect a ariennir gennym yn cael ei werthuso a hoffem wybod beth hoffech ei ddysgu o'r gwerthusiad. Dyma enghraifft o gwestiwn ymchwil 'Beth yw effaith ymyrraeth mentora yn y gymuned ar sgiliau cymdeithasol ac emosiynol pobl ifanc mewn perygl o droseddu a thrais?'

24. Theori newid

Beth yw'r theori sy'n cysylltu gweithgareddau'r ymyrraeth, anghenion y bobl ifanc yr ydych yn gweithio gyda nhw, a'r canlyniadau uniongyrchol bwriadedig a'r canlyniadau o ran lleihau troseddu?

Bwriadwn ariannu ymyriadau sydd â theori newid gredadwy, a gefnogir gan yr ymchwil sydd ar gael. Mae gennym ddiddordeb mewn deall y ffordd y mae'r broses newid hon yn digwydd yn eich prosiect.

Eglurwch

- Yr effaith benodol yr ydych yn ceisio ei chael mewn perthynas â chanlyniadau o ran troseddau ieuenctid
- Y ffordd y bydd gweithgareddau'ch prosiect a dwyster eich cymorth yn diwallu anghenion y bobl ifanc yr ydych yn gweithio gyda nhw, ac yn arwain at welliannau mewn canlyniadau uniongyrchol, ac yn y pen draw at leihau troseddu ymysg ieuenctid
- Y ffordd y mae'ch prosiect yn wahanol i'r 'ddarpariaeth bresennol' sydd ar gael i'r bobl ifanc hyn, a pham mae gan eich prosiect fwy o siawns o lwyddo na'r ddarpariaeth sydd ar gael fel arall
- Y dystiolaeth neu'r ymchwil sy'n sail i'ch theori newid.

Mae canllaw'r Early Intervention Foundation, [Guide to Evaluation Success](#), yn cyflwyno'r elfennau sy'n creu theori newid dda. Ac mae adroddiad yr Early Intervention Foundation, "What works to prevent gang involvement, youth

Youth Endowment Fund



violence and crime”, yn dod â thystiolaeth ac ymchwil sydd ar gael yn y maes at ei gilydd.

Defnyddiwch hyd at 300 gair.

25. Cynnal y prosiect o'r blaen

Rhowch wybod i ni a yw'r prosiect arfaethedig wedi'i gynnal yng Nghymru neu Loegr o'r blaen, ac os felly, disgrifiwch faint o bobl ifanc y mae wedi'u cefnogi.

Defnyddiwch hyd at 200 gair.

26. Y gallu i ehangu'r prosiect

Rhowch wybod i ni, pe baem yn ariannu'r prosiect ac y canfyddir ei fod yn cael effaith bositif, ym mha ffordd y gellid ehangu'r prosiect i gyrraedd mwy o bobl.

Defnyddiwch hyd at 200 gair.

27. Data am gyfranogwyr y prosiect

Darparwch unrhyw ddata perthnasol yr ydych yn ei gasglu o ran demograffeg, y prosiect neu ddata monitro, megis dangosyddion economaidd-gymdeithasol cyfranogwyr, nifer cyfartalog o sesiynau y mae pob cyfranogwr yn mynd iddynt, a nifer y cyfranogwyr sydd wedi cwblhau rhaglenni/gwasanaethau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Defnyddiwch hyd at 300 gair.

Youth Endowment Fund



28. Adborth defnyddwyr

Rhowch grynodedb o unrhyw adborth yr ydych wedi'i gasglu gan y bobl ifanc yr ydych wedi gweithio gyda nhw (e.e. adborth o arolygon, grwpiau ffocws ayyb). Hoffem ddeall safbwyntiau cyfranogwyr ar y prosiect, os yw'n bosib.

Defnyddiwch hyd at 200 gair.

29. Data ynglŷn â chanlyniadau ac effaith

Rhowch grynodedb o'r data ynglŷn ag effaith sydd ar gael ar gyfer eich ymyrraeth. Os yw'r prosiect wedi'i gynnal o'r blaen, gallai hyn ymwneud â'r canlyniadau blaenorol a gyflawnwyd, gan gynnwys adborth neu ganlyniadau yn ogystal â thystiolaeth arall. Os nad yw'ch prosiect wedi'i gynnal o'r blaen, gallai hyn ymwneud â thystiolaeth arall sydd wedi'i chyhoeddi. Sylwch y gellid gofyn i chi, yn nes ymlaen, ddarparu tystiolaeth bellach o effaith eich prosiect arfaethedig.

Defnyddiwch hyd at 300 gair.

Adran 4: Cost y prosiect

Mae'r adran hon yn gyfle i chi roi gwybod i ni faint o gyllid yr ydych yn gofyn amdano, ac ar beth y byddwch yn ei wario.

30. Swm y grant y gofynnir amdano

Faint o gyllid yr ydych yn gofyn amdano o'r Gronfa Waddol Ieuenctid yn gyfan gwbl?

Dim ond rhif y gallwch ei roi yn y blwch a ddarperir.

Youth Endowment Fund



31. Cyllid arall sydd wedi'i sicrhau

A ydych eisoes wedi sicrhau unrhyw gyllid arall tuag at y prosiect hwn?

Atebwch 'do' neu 'naddo'.

32. Manylion y cyllid sydd wedi'i sicrhau

Os 'do' oedd eich ateb i gwestiwn 31, rhowch wybod i ni am y cyllid sydd eisoes wedi'i sicrhau. Dylai hyn gynnwys faint sydd wedi'i sicrhau, enw'r cyllidwr, dyddiad dyfarnu'r cyllid a'r cyfnod y mae cyllid wedi'i ddyfarnu ar ei gyfer.

Defnyddiwch hyd at 200 gair.

33. Codi arian mewn ffyrdd eraill

A ydych yn bwriadu codi arian tuag at y prosiect hwn o ffynonellau eraill?

Atebwch 'ydym' neu 'nac ydym'.

34. Manylion codi arian

Os 'ydym' oedd eich ateb i gwestiwn 33, rhowch fanylion yr arian yr ydych yn dymuno ei godi. Dylai hyn gynnwys enw'r cyllidwr, faint yr ydych yn bwriadu ei godi ac erbyn pryd yr ydych yn gobeithio sicrhau'r arian.

Defnyddiwch hyd at 200 gair.

35. Manylion Gwariant

Youth Endowment Fund



Dyma ble rydych yn rhestru'r eitemau unigol yr hoffech i ni eu hariannu. Gallwch restru hyd at 12 tasg yn eich cyllideb grant. Ar gyfer pob tasg, rhaid i chi nodi;

- **Gwaith a wneir:** dyma ble rydych yn enwi'r hyn a fydd yn cael ei wneud.
- **Cyfanswm y gost:** nodwch gyfanswm cost y rhan hon o'r gwaith.
- **Gwariant tan 31/3/20:** faint o gyfanswm cost y rhan hon o'r gwaith yr ydych yn bwriadu ei wario cyn diwedd mis Mawrth 2020
- **Gwariant 2020/21:** faint o gyfanswm cost y rhan hon o'r gwaith yr ydych yn bwriadu ei wario rhwng 1^{af} Ebrill 2020 a mis Hydref 2020 (os ydych yn ymgeisio am 12 mis o gyllid) neu fis Hydref 2021 (os ydych yn ymgeisio am 24 mis o gyllid).

Os oes angen i chi dalu TAW ar unrhyw eitemau yr ydych yn gofyn i ni eu hariannu, dylai'r costau yr ydych yn eu rhestru gynnwys TAW.

36. Gwybodaeth Ariannol y Mudiad

Rhowch wybod i ni am eich hanes ariannol hyd yma. Os ydych yn ymgeisio mewn partneriaeth, rhowch y wybodaeth ar gyfer y mudiad arweiniol. Byddwn wedyn yn gofyn am ragor o wybodaeth gan y partneriaid eraill os oes angen.

B1 (Y1) yw'r flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf y mae gennych gyfrifon wedi'u harchwilio ar ei chyfer. B2 (Y2) yw'r flwyddyn lawn cyn hynny. Ar gyfer y ddwy flynedd, dylech nodi'r ffigyrau fel y maent wedi'u rhestru yn eich cyfrifon; mae'n bosib y byddwn yn gwirio'r wybodaeth drwy ei chymharu â chofnodion cyhoeddus, felly mae'n bwysig bod y wybodaeth yn fanwl gywir.

Ffigyrau'r flwyddyn rheoli bresennol (Current management year figures) yw'ch ffigyrau diweddaraf o'ch cyfrifon rheoli. Ffigyrau blwyddyn lawn rhagamcanol (Projected full year figures) yw'r hyn yr ydych yn ei ddisgwyl/rhagamcanu ar

Youth Endowment Fund



gyfer y flwyddyn ariannol lawn yr ydym ynddi ar hyn o bryd. Rhagolwg blwyddyn (Forecast YR) yw'r hyn yr ydych yn ei ddisgwyl/rhagamcanu ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn nesaf ar ôl yr un yr ydym ynddi ar hyn o bryd.

Youth Endowment Fund



Atodiad – Theori Newid

Ceir isod Theori newid ar gyfer rhaglen ddychmygol sy'n ceisio mynd i'r afael â throsteddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy ganolbwyntio ar osgoi ymddygiad mentrus.

Y ffordd y bydd gweithgareddau'ch prosiect a dwyster eich cymorth yn diwallu anghenion y bobl ifanc yr ydych yn gweithio gyda nhw, ac yn arwain at welliannau mewn canlyniadau uniongyrchol, ac yn y pen draw at leihau troseddu ymysg ieuenctid.

Mae'r defnydd o alcohol, tybaco, a chyffuriau eraill yn faterion pwysig sy'n aml yn dechrau yn ystod y glasoed. Mae tystiolaeth bod y defnydd o gyffuriau yn symud ymlaen mewn dilyniant, gan ddechrau yn y camau cynnar gyda sigarêts ac alcohol, ac yna'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon nes ymlaen yn y dilyniant o ymddygiadau defnyddio sylweddau. Mae'r defnydd o gyffuriau ac alcohol yn y glasoed yn fwy cyffredin mewn plant sydd dan anfantais economaidd mewn ardaloedd trefol a dangoswyd bod cysylltiad rhyngddo ac ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol.

Mae plant sydd ag agweddau neu ddisgwyliadau positif ynglŷn â defnyddio sylweddau yn fwy tebygol o droi'n ddefnyddwyr sylweddau na'r rheini heb yr agweddau a'r credoau hyn. Yn ogystal, canfuwyd bod defnyddio sylweddau yn gysylltiedig â llawer o nodweddion unigol gan gynnwys hunanreolaeth isel.

Mae rhaglenni atal camddefnyddio sylweddau wedi'u dylunio i ddysgu i fyfyrwyr ffyrdd o osgoi sefyllfaoedd peryglus lle maent yn debygol o fod dan bwysau i ysmegu, yfed neu gymryd cyffuriau, yn ogystal â'u helpu i ennill y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ddelio gyda phwysau cymdeithasol yn y sefyllfaoedd hyn.

Mae cyfranogwyr yn mynd i un sesiwn ar bymtheg sy'n para awr yr un gyda gweithwyr ieuenctid hyfforddedig gan ganolbwyntio ar sgiliau hunanreoli personol, sgiliau cymdeithasol a strategaethau i wrthod tybaco, alcohol a chyffuriau. Dysgir y cwricwlwm gan ddefnyddio technegau amrywiol gan gynnwys hwyluso, cymell

Youth Endowment Fund



(*coaching*), asesu ac ymarfer ymddygiad sy'n ddulliau hyfforddi profedig. Nod yr ymyrraeth yw lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy leihau ysmegu sigarêts a'r defnydd o gyffuriau ac alcohol.

Y dystiolaeth neu'r ymchwil sy'n sail i'ch theori newid

Ceir sylfaen dystiolaeth ryngwladol sefydledig ar gyfer ymyriadau sy'n dysgu sgiliau cymdeithasol ar gyfer hunanreoli i blant a phobl ifanc. Mae'r ymyriadau hyn wedi'u gwerthuso mewn sawl gwerthusiad cadarn sy'n dangos eu bod yn effeithiol o ran gwella gwybodaeth a defnydd pobl ifanc o strategaethau ymwrthod mewn perthynas ag ymddygiad cymryd risg a lleihau'r defnydd o alcohol, sigarêts a chyffuriau.

Mae'r ymyrraeth yn ymgorffori technegau seiliedig ar dystiolaeth megis hyfforddiant sgiliau ymddygiadol gwybyddol, a cheir sylfaen dystiolaeth sefydledig ar gyfer yr ymyrraeth sy'n cynnwys canfyddiadau hirdymor ynglŷn â lleihau defnydd o sylweddau, trais a throseddu wrth werthuso'r effaith hirdymor.

Y ffordd y mae'ch rhaglen yn wahanol i'r ddarpariaeth sydd ar gael fel arall i'r bobl ifanc hyn, a pham mae gan eich prosiect fwy o siawns o lwyddo na'r ddarpariaeth hon

Tra mae rhaglenni eraill yn bodoli mewn ysgolion i atal camddefnyddio sylweddau, does dim un ar waith yn yr ardal leol sy'n golygu mai dyma'r unig raglen sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ddatblygu trafferthion gydag alcohol a chyffuriau. Mae'r ymyrraeth hon yn cyd-fynd yn dda â'r cyd-destun lleol, ac mae astudiaeth ddichonoldeb sydd eisoes yn bodoli wedi dangos canlyniadau positif sy'n golygu bod rheswm da dros werthusiad mwy cadarn.

Youth Endowment Fund



Awdurdodau Lleol yn Lloegr

Barnsley Borough Council
Bath and North East Somerset Council
Bedford Borough Council
Birmingham City Council
Blackburn with Darwen Borough Council
Blackpool Council
Bolton Borough Council
Bournemouth Borough Council
Bracknell Forest Borough Council
Bradford City Council
Brighton and Hove City Council
Bristol City Council
Buckinghamshire County Council
Bury Borough Council
Calderdale Borough Council
Cambridgeshire County Council
Central Bedfordshire Council
Cheshire East Council
Cheshire West and Chester Council
City of London Corporation
City of York Council
Cornwall Council
Council of the Isles of Scilly
Coventry City Council
Cumbria County Council
Darlington Borough Council

Youth Endowment Fund



Derby City Council
Derbyshire County Council
Devon County Council
Doncaster Borough Council
Dorset County Council
Dudley Borough Council
Durham County Council
East Riding of Yorkshire Council
East Sussex County Council
Essex County Council
Gateshead Borough Council
Gloucestershire County Council
Halton Borough Council
Hampshire County Council
Hartlepool Borough Council
Herefordshire Council
Hertfordshire County Council
Hull City Council
Isle of Wight Council
Kent County Council
Kirklees Borough Council
Knowsley Borough Council
Lancashire County Council
Leeds City Council
Leicester City Council
Leicestershire County Council
Lincolnshire County Council
Liverpool City Council

Youth Endowment Fund



London Borough of Barking and Dagenham
London Borough of Barnet
London Borough of Bexley
London Borough of Brent
London Borough of Bromley
London Borough of Camden
London Borough of Croydon
London Borough of Ealing
London Borough of Enfield
London Borough of Hackney
London Borough of Hammersmith and Fulham
London Borough of Haringey
London Borough of Harrow
London Borough of Havering
London Borough of Hillingdon
London Borough of Hounslow
London Borough of Islington
London Borough of Lambeth
London Borough of Lewisham
London Borough of Merton
London Borough of Newham
London Borough of Redbridge
London Borough of Sutton
London Borough of Tower Hamlets
London Borough of Waltham Forest
London Borough of Wandsworth
Luton Borough Council
Manchester City Council

Youth Endowment Fund



Medway Council
Middlesbrough Borough Council
Milton Keynes Council
Newcastle Upon Tyne City Council
Norfolk County Council
North East Lincolnshire Council
North Lincolnshire Council
North Somerset Council
North Tyneside Borough Council
North Yorkshire County Council
Northamptonshire County Council
Northumberland County Council
Nottingham City Council
Nottinghamshire County Council
Oldham Borough Council
Oxfordshire County Council
Peterborough City Council
Plymouth City Council
Poole Borough Council
Portsmouth City Council
Reading Borough Council
Redcar and Cleveland Borough Council
Rochdale Borough Council
Rotherham Borough Council
Royal Borough of Greenwich
Royal Borough of Kensington and Chelsea
Royal Borough of Kingston upon Thames
Royal Borough of Richmond upon Thames

Youth Endowment Fund



Rutland County Council
Salford City Council
Sandwell Borough Council
Sefton Borough Council
Sheffield City Council
Shropshire Council
Slough Borough Council
Solihull Borough Council
Somerset County Council
South Gloucestershire Council
South Tyneside Borough Council
Southampton City Council
Southend-on-Sea Borough Council
Southwark Council
St Helens Borough Council
Staffordshire County Council
Stockport Borough Council
Stockton-on-Tees Borough Council
Stoke-on-Trent City Council
Suffolk County Council
Sunderland City Council
Surrey County Council
Swindon Borough Council
Tameside Borough Council
Telford and Wrekin Borough Council
Thurrock Council
Torbay Council
Trafford Borough Council

Youth Endowment Fund



Wakefield City Council
Walsall Borough Council
Warrington Borough Council
Warwickshire County Council
West Berkshire Council
West Sussex County Council
Westminster City Council
Wigan Borough Council
Wiltshire Council
Windsor and Maidenhead Borough Council
Wirral Borough Council
Wokingham Borough Council
Wolverhampton City Council
Worcestershire County Council

Awdurdodau lleol Cymru

Blaenau Gwent
Bridgend
Caerphilly
Cardiff
Carmarthenshire
Ceredigion
Conwy
Cyngor Gwynedd
Denbighshire
Flintshire
Isle of Anglesey
Merthyr Tydfil
Monmouthshire

Youth Endowment Fund



Neath Port Talbot

Newport

Pembrokeshire

Powys

Rhondda Cynon Taf

Swansea

Torfaen

Vale of Glamorgan

Wrexham